

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Prawf Llygaid DSE

Fersiwn 3.0 Mawrth 2019

Am y polisi hwn

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor o dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992 i ddarparu archwiliad llygaid ar gyfer defnyddwyr DSE. Os yw'r prawf yn nodi bod angen sbectol ar y defnyddiwr yn benodol i weithio gyda DSE, mae'n rhaid i'r cyflogwr dalu am sbectol sylfaenol. Nid oes dyletswydd i dalu am sbectol arferol os nad oes angen sbectol ar y defnyddiwr i wneud gwaith DSE. Nid oes dyletswydd mewn perthynas â gweithwyr ddim yn defnyddio DSE yn anaml neu am gyfnodau byr o amser ac nid yw'r rheoliadau'n berthnasol.

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â darparu profion llygaid a phrynu sbectol yn unig, lle bo angen. Ymdrinnir ag agweddau eraill ar waith gyda DSE yn y Polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos Corfforaethol.

Mae adnoddau ar wefan y Cyngor i gefnogi'r Polisi hwn.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0		
2.0	Hydref 2018	Tynnwyd Barnet Pepper fel darparwr Mae Allport wedi'i gynnwys ar y system fel darparwr
3.0	Mawrth 2019	<p>Gan fod y Cyngor yn codi tâl ar bwynt y daleb, dylid ystyried y rheolaethau canlynol:</p> <p>Dylid gwneud y penodiad gyda'r Optegydd cyn gofyn am y daleb</p> <p>Rhaid mynychu apwyntiadau o fewn mis i gyhoeddi'r daleb.</p> <p>Dim ond un daleb fydd yn cael ei gyhoeddi o fewn cyfnod o 24 mis oni bai ei fod wedi'i bennu gan Optegydd. Ni fydd talebau pellach yn cael eu cyhoeddi o fewn y cyfnod hwn oni bai fod rheswm dilys dros beidio â defnyddio taleb cychwynol.</p> <p>Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn penderfynu a yw'r rheswm dros y daleb nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ddilys.</p>
3.0	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi hwn yn:	Mawrth 2021
Cynhelir yr adolygiad nesaf gan:	

Manylion cyswllt: 01248 752820

lechydaDiogelwch@ynysmon.gov.uk

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Cynnwys

1.0 Cefndir

Mae gan y Cyngor ddyletswyddau penodol tuag at weithwyr o dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992. Mae Rheoliad 5 yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer y llygaid a golwg.

(1) Pan –

(a) fod person yn ddefnyddiwr yn yr ymgymeriad y cyflogir ef ynddo; neu

(b) ddaw person yn ddefnyddiwr mewn ymgymeriad lle y mae, neu lle y bydd, yn gyflogedig,

Os bydd y person hwnnw yn gofyn iddo, rhaid i'r cyflogwr sy'n cynnal yr ymgymeriad sicrhau bod prawf llygaid a golwg priodol yn cael ei gynnal arno gan berson cymwys o fewn yr amser a bennir ym mharagraff (2).

(2) Yr amser y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw –

(a) yn achos person y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a), cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn gwneud y cais; a

(b) yn achos person y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b), cyn ei fod yn dod yn ddefnyddiwr.

(3) Ar gyfnodau rheolaidd yn dilyn darparu prawf llygaid a golwg i'r gweithiwr (boed hynny cyn neu wedi iddo ddod yn gyflogai) yn unol â pharagraffau (1) a (2), dylai ei gyflogwr, yn amodol ar baragraff (6), sicrhau ei fod yn derbyn prawf llygaid a golwg priodol pellach, a bod person cymwys yn cynnal y prawf hwnnw.

(4) Lle mae defnyddiwr yn cael anawsterau gyda'u golwg y gellid ystyried yn rhesymol eu bod wedi'u hachosi drwy weithio ar gyfarpar sgrin arddangos, bydd ei gyflogwr yn sicrhau ei fod yn derbyn, yn dilyn derbyn cais ganddo, prawf llygaid a golwg priodol, ac y bydd person cymwys yn cynnal y prawf hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib ar ôl derbyn y cais a grybwyllir uchod.

(5) Bydd pob cyflogwr yn sicrhau fod pob gweithiwr a gyflogir ganddo yn derbyn offer cywiro arbennig sy'n briodol ar gyfer y gwaith a wneir gan y defnyddiwr dan sylw os –

(a) na ellir defnyddio offer cywiro arferol; a

(b) bod canlyniad unrhyw brawf llygaid a golwg a roddwyd i'r defnyddiwr yn unol â'r weithdrefn hon yn dangos fod darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol.

(6) Ni fydd dim ym mharagraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr roi prawf llygaid a golwg i unrhyw weithiwr yn erbyn ewyllys y gweithiwr hwnnw.

2.0 Diffiniadau

Mae "Cyfarpar Sgrin Arddangos" yn cynnwys sgrin arddangos gonfensiynol (tiwb pelydrau cathod), sgriniau fflat crisial hylifol neu blasma, sgriniau cyffwrdd a thechnolegau eraill sy'n datblygu. Mae'n cynnwys microfiche, ac o dan rai amgylchiadau penodol, sgriniau a ddefnyddir ar gyfer teledu cylch cyfyng.

Ystyr "Defnyddiwr" yw gweithiwr sy'n defnyddio cyfarpar sgrin arddangos fel rhan

sylweddol o'i waith arferol. Yn gyffredinol, bydd yn briodol dynodi'r person dan sylw yn 'ddefnyddiwr' os ydyw:

Fel arfer yn defnyddio DSE am gyfnodau parhaus neu bron â bod yn barhaus o awr neu fwy ar y tro; a'u bod yn

(a) defnyddio DSE yn y modd hwnnw fwy neu lai'n ddyddiol; ac

(b) yn gorfod trosglwyddo gwybodaeth yn sydyn i'r DSE ac oddi arno;

Ystyr "Darparwr" yw sefydliad a gofrestrwyd i ddarparu profion llygaid priodol ac offer cywiro pan fo angen.

Ystyr "Optegydd Cyswllt" yw Optegydd y cydnabyddir ei fod yn rhan o'r trefniadau Darparwr.

3.0 Mesurau yn y Gweithle

Mewn perthynas â'r Polisi hwn ar brofion llygaid a golwg, lle bydd gweithwyr (Defnyddwyr) yn ymarfer eu hawl i gael profion llygaid, bydd y Cyngor yn annog ei staff i gael prawf llygaid llawn a bydd y Gwasanaeth dan sylw'n ysgwyddo'r costau.

Bydd y darparwr a nodir (ASE Corporate Eyecare Ltd a Boots Corporate Eyecare ar hyn o bryd) yn cynnal y profion llygaid a golwg. Ceir rhestr o ddarparwyr o dan y cynllun hwn yn yr Atodiad (Atodiad 1).

Bydd gan bob Gwasanaeth "Gydlynnydd DSE Gwasanaeth" fydd yn derbyn hyfforddiant er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion megis asesiadau dynodi defnyddiwr, asesiad gweithfan, profion llygaid, ayb, ac yn cysylltu â'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Bydd pob Gwasanaeth yn nodi'r holl Ddefnyddwyr o fewn eu Gwasanaeth a byddant yn cynnal a darparu rhestr gyfredol i'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Bydd defnyddwyr yn cynnwys staff dros dro fydd yn gweithio i'r Cyngor am gyfnod o ddeuddeg mis neu fwy.

Rhaid gwneud cytundeb gyda darparwyr Gwaith Asiantaeth er mwyn sicrhau fod staff tymor byr wedi derbyn prawf llygaid a sbectol lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn darparu rhestr o Ddefnyddwyr cyfredol i'r Darparwr.

Bydd defnyddwyr yn gwneud cais am e-daleb prawf llygaid / sbectol gan y Darparwr (naill ai'n electronig neu gan Wasanaethau Cwsmer). Bydd Cydlynnydd DSE y Gwasanaeth yn monitro ceisiadau am brofion llygaid ac yn rhoi eu cymeradwyaeth cyn cyhoeddi'r e-daleb.

Noder: e-daleb am brawf llygaid, sbectol safonol, lensys golwg sengl / deuffocal

Bydd y defnyddiwr yn gwneud apwyntiad gydag Optegydd Cyswllt. Bydd yr optegydd yn cadarnhau a oes angen offer cywiro yn benodol ar gyfer defnyddio DSE ai peidio. Cyflwynir yr e-daleb i'r Optegydd i dalu am brawf llygaid a sbectol os oes angen, yn

unol â'r cytundeb gyda'r Darparwr.

Trefnir i ail-gynnal y prawf llygaid ymhen 24 mis, oni bai fod yr Optegydd neu lechyd Galwedigaethol yn argymhell cyfnod byrrach.

Gan fod y Cyngor yn codi tâl ar bwynt y daleb, dylid ystyried y rheolaethau canlynol:

Dylid gwneud y penodiad gyda'r Optegydd cyn gofyn am y daleb

Rhaid mynychu apwyntiadau o fewn mis i gyhoeddi'r daleb.

Dim ond un daleb fydd yn cael ei gyhoeddi o fewn cyfnod o 24 mis oni bai ei fod wedi'i bennu gan Optegydd. Ni fydd talebau pellach yn cael eu cyhoeddi o fewn y cyfnod hwn oni bai fod rheswm dilys dros beidio â defnyddio taleb cychwynnol.

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn penderfynu a yw'r rheswm dros y daleb nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ddilys.

4.0 Mesurau Rheoli

Bydd Cydlynnydd DSE y Gwasanaeth yn cadw cofnod o Ddefnyddwyr sydd wedi cael prawf llygaid ac unrhyw ofynion o ran ail-gynnal y prawf.

Bydd person dynodedig (o'r tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol) yn gweinyddu'r system yn ei chyfanrwydd ac yn cael mynediad at yr holl gofnodion.

O bryd i'w gilydd bydd lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn adolygu'r trefniadau er mwyn mesur cydymffurfiaeth â'r Polisi a deddfwriaeth.

Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol ar 01248 725820.

ATODIAD 1

Enw	Cyfeiriad	Tref	Cod Post
Alton Murphy	Manchester House	Amlwch	LL68 9AN
Alton Murphy	43 Stryd y Castell	Biwmares	LL58 8BB
Alton Murphy	4 Stryd Boston	Caergybi	LL65 1BW
Alton Murphy	Canolfan y Ffowndri	Llangefni	LL77 7LT
Alton Murphy	197 Stryd Fawr	Bangor	LL57 1NU
Boots	277-279 Stryd Fawr	Bangor	LL57 1PD
Allport	25 Stryd Fawr	Llangefni	LL77 7NA